

Prosbectws Ysgol y Bannau 2025 - 2026



Saif Ysgol y Bannau ar gyrion tref Aberhonddu ym Mhowys, o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'n gwasanaethu dalgylch eang drefol a gwledig o Aberhonddu hyd at y ffin gyda Lloegr. Lleolir yr ysgol gerllaw'r Ganolfan Hamdden gyda thir gwyrdd o'i chwmpas a golygfeydd hyfryd o'r Bannau a chefn gwlad Sir Frycheiniog.

Ar ôl ei dechreuad fel Uned o dan adain ysgolion cynradd eraill yn y dref, sefydlwyd Ysgol y Bannau fel ysgol ym 1982 pan apwyntiwyd Mr John Meurig Edwards yn bennaeth. Wrth i'r rhifau gynyddu'n gyson bu'n rhaid symud i safleoedd gwahanol o fewn y dref tan iddi ddod i adeilad newydd sbon ar y safle presennol ar Hydref 26ain, 1998. Mae'r adeilad wedi ei seilio ar gynllun diddorol a chreadigol ac mae'n dystiolaeth deilwng o dwf addysg Gymraeg a llwyddiant yr ysgol yn yr ardal. Yn 2007 agorwyd estyniad ar gyfer Addysg Cyn Ysgol.

Dynodir yr ysgol fel Ysgol Gynradd Gymraeg sydd yn darparu addysg gyfrwng Gymraeg ar gyfer plant o 5-11 oed. Rhoddir lle amlwg i'r Gymraeg yn nysgu a bywyd dydd i ddydd yr ysgol. Anogir y disgyblion i siarad Cymraeg yn yr ystafell ddosbarth ac hefyd y tu allan.

Ysgol y Bannau is situated on the outskirts of Brecon in Powys, within the Brecon Beacons National Park. It serves a wide urban and rural catchment area, from Brecon to the English border. Positioned near the Leisure Centre the school is surrounded by green fields and enjoys wonderful views of the Beacons and the Breconshire countryside.

After starting as a Welsh Unit within other primary schools in the town, Ysgol y Bannau was established as a school in 1982, when Mr John Meurig Edwards was appointed headteacher. A consistent rise in pupil numbers necessitated several moves to various sites in the town until the move to a brand new building on the present site on October 26th, 1998. The building is based on a creative and interesting design and is worthy testimony to the growth of Welsh-medium education and the success of the school in the area. In 2007, an extension was built for pre-school education.

The school is classified as a County Primary Welsh Medium School and caters for pupils from 5-11 years of age. The Welsh language plays a prominent part in the teaching and in the everyday life of the school. Pupils are encouraged to converse in Welsh both inside and outside the classroom.



Ysgol y Bannau

Penlan , Aberhonddu, Powys, LD3 9SR

Tel: 01874622207 Email: office@bannau.powys.sch.uk

Pennaeth / Headteacher: Miss M.Evans

Annwyl rieni,

Mae dewis yr ysgol a fydd yn rhoi'r cyfle gorau i'ch plentyn yn hynod bwysig ac felly mae'n hanfodol eich bod yn casglu gwybodaeth a chymeryd amser er mwyn i chi deimlo'n hyderus eich bod wedi gwneud y penderfyniad iawn. Mae gan rieni'r hawl i fynnu bod plentyn yn derbyn yr addysg orau posibl ond maent hefyd am iddo fod yn hapus a theimlo'n ddiogel a chartrefol yn yr ysgol.

Credwn y gallwn yn Ysgol y Bannau ateb eich disgwyliadau oherwydd, fel staff a llywodraethwyr, credwn yn gryf mewn addysg gyflawn wrth gyrraedd safonau addysgol uchel, tra'n rhoddi i bob plentyn y cyfle i ddatblygu ei holl ddoniau. Anelwn at wneud hyn mewn awyrgylch sydd yn gartrefol ac yn ddisgybledig tra'n rhoddi pwyslais ar ymddwyn gyda pharch, cwrteisi a charedigrwydd tuag at eraill.

Wrth gwrs mae Ysgol y Bannau yn cynnig dimensiwn ychwanegol i addysg eich plentyn gan y bydd yn derbyn hyn oll drwy gyfrwng y Gymraeg gyda'r holl fanteision a gredwn sydd ynghlwm wrth hyn. Rydym yn ymwybodol iawn nad yw'r mwyafrif ohonoch yn medru'r Gymraeg a gwerthfawrogwn yn fawr eich bod yn ystyried addysg Gymraeg ar gyfer eich plentyn.

Petaech yn dewis anfon eich plentyn i Ysgol Y Bannau rwyf yn gwbl hyderus y byddwch wedi gwneud y penderfyniad cywir ac mi fyddwn yn falch o'i gael yn ein mysg. Gobeithiwn y bydd hyn yn gychwyn ar bartneriaeth fuddiol a hapus rhyngom ni fel ysgol a chi fel rhieni. Cofiwch gysylltu â mi yn yr ysgol os oes gyda chi unrhyw ymholiadau pellach neu bryderon ac edrychaf ymlaen at gwrdd â chi.

Yn gywir ,

Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dear parents,

Choosing the school that will give your child the best opportunity is exceptionally important and it is therefore essential for you to gather information and to take your time in order that you feel confident that you have made the right decision. Parents have the right to expect the best possible education but they also wish their child to be happy and to feel safe and at ease in school.

We believe that Ysgol y Bannau can meet your expectations since, as staff and as governors, we strongly believe in a rounded education while achieving the highest possible standards and giving each child the opportunity to develop all his/her abilities.

Of course, Ysgol y Bannau offers an additional dimension to your child's education since he/she will receive all this through the medium of Welsh with all the advantages that we believe this brings with it. We are very aware that the majority of you do not speak Welsh and we greatly appreciate that you are considering Welsh medium education for your child.

Should you choose to send your child to Ysgol y Bannau I am confident that you will have made the correct choice and we shall be glad to have your child as part of the school. We hope that this heralds the beginning of a happy and fruitful partnership between us as a school and yourselves as parents.

Yours sincerely,

Chair of Governors

Rydym am greu disgyblion iachus, cytbwys ac uchelgeisiol sy'n tyfu i fod yn ddinasyddion egwyddorol o'r byd.

Together, we will nurture balanced, healthy, ambitious pupils, who will grow to be principled, compassionate citizens of the world.

Annogwn ein disgyblion i ymfalchïo yn eu sgiliau amlieithog ac i fod yn faner i'r iaith a diwylliant Cymreig yn yr ardal.

We will encourage our pupils to take pride in their multilingual abilities and be ambassadors for Welsh language and culture.

Parchwn ein byd naturiol a gweithiwn yn ddiflino i'w hamddiffyn a'i gwarchod ar gyfer y dyfodol.

We will respect our natural world and work hard to safeguard it for the future.

Cynigwn gyfle cyfartal i bawb, a chefnogwn bob plentyn o fewn amgylchedd cynwysiedig a theg. Byddwn yn cefnogi diddordebau a doniau pob unigolyn, gan gofio mai un siawns caiff ein disgyblion o'r addysg orau yn yr ysgol gynradd.

We will offer equal opportunities to all children and build, foster and encourage an environment of equity and inclusion. We will nurture the passions and talents of each individual child, recognising that our pupils have just one chance to receive the very best primary education.

Annogwn ein disgyblion i fod yn annibynnol ac yn hyderus ac i roi cynnig ar bethau heb ofni methu, a pheidio cael eu trechu gan gamgymeriadau, ond i addasu a dysgu trwyddynt.

We will encourage our pupils to be confident and independent, to try without fear of failing and to not be discouraged by mistakes, but instead see them as opportunities to grow and learn.

Gwarchodwn gyda balchder, ein hiaith a'n diwylliant a pharchwn chredoau a thraddodiadau eraill.

We will proudly celebrate our culture and heritage, whilst always respecting those of others.

Gwnewn deulu'r Bannau yn rhan annatod o'n cymuned a'r gymuned yn rhan annatod ohonom ni .

We will make Ysgol y Bannau an integral part of the community and the community an integral part of us.

O drin daear â chariad,

Ym mhob pren y mae parhad. Mererid Hopwood.

Cyd-ddysgwn i greu'r dyfodol.

Ein nod yw creu yr amodau hyn o fewn ein hysgol....

Os triga plentyn a beirniadaeth dysga gondemnio
Os triga plentyn a chasineb dysga sut i ymladd
Os triga plentyn gyda gwawd dysga swildod
Os preswylia'r bychan a chywilydd dysga deimlo euogrwydd.

Os preswyla a goddefgarwch dysga amynedd
Os triga bychan a chefnogaeth dysga hyder
Os triga bychan gyda chlod dysga werthfawrogi
Os triga bychan a thegwch dysga gyfiawnder
Os triga plentyn a sicrwydd dysga gyniwair ffydd.

Os triga plentyn gyda chymeradwyaeth dysga hoffter ohono'i hun
Os yw plentyn yn byw gyda chymeradwyaeth a chyfeillgarwch
Dysga ef neu hi i ddod o hyd i gariad yn y byd.

Our aim is to create these conditions within our school....

Food for thought...

If a child lives with criticism - he learns to condemn.

If a child lives with hostility - he learns to fight.

If a child lives with ridicule - he learns to be shy.

If a child lives with shame - he learns to feel guilty.

If a child lives with tolerance - he learns to be patient.

If a child lives with encouragement - he learns confidence.

If a child lives with praise - he learns to appreciate.

If a child lives with fairness - he learns justice.

If a child lives with security - he learns to have faith.

If a child lives with approval - he learns to like himself.

*If a child lives with acceptance and friendship
He learns to find love in the world.*

Gwybodaeth i Rieni
2025 – 2026

Ysgol Gynradd Primary School
Cyfeiriad Address

Ysgol y Bannau
Penlan,
Aberhonddu,
Powys,
LD3 9SR

Ffôn Telephone
E-bost e-mail
Pennaeth Headteacher
Cadeirydd y Llywodraethwyr
Chair of Governors
Cyfarwyddwr Addysg
Director of Education

01874 622207
office@bannau.powys.sch.uk
Miss Marion Evans

Mr. R. Ridge Evans

Swyddfa Addysg
Cyngor Sir Powys,
Neuadd y Sir,
Llandrindod,
Powys,
LD1 5LG

Disgrifiad o'r Ysgol

Ysgol Gynradd Sirol (Cyfnod Sylfaen / CA2) yw hon.
Mae'n Ysgol ddyddiol, ddwyieithog, gyd addysgol.

Description of the School

This school is a County Primary School
It is a bilingual, co-educational day school.

Oriau dysgu Teaching Hours

Sesiwn y bore CC 1 a CC2	9.10yb – 12.15yh	<i>Reception/years 1 and 2 Morning Session</i>
Sesiwn y bore CC3	9.10yb – 12.30yh	<i>Years 3,4,5 and 6 Morning Session</i>
Sesiwn y prynhawn CC1 a CC2	1.15yh – 3.30yh	<i>Reception/years 1 and 2 Afternoon Session</i>
Sesiwn y prynhawn CC3	1.30yh – 3.30yh	<i>Years 3,4,5 and 6 Afternoon Session</i>
Clwb Brecwast	8.00yb – 9.00yb	Breakfast Club
Clwb ar ôl ysgol Y Gorlan	3.30yh – 5.30yh	After School Club

Amser gorau i gysylltu â'r Ysgol

Contacting the School

Gofynnwn yn garedig i rieni gysylltu â'r ysgol os yn bosib rhwng 8.45yb – 9.15yb a 2.30yh a 3.00yh
Er bod y manylion yn y ddogfen hon yn gywir pan gyhoeddwyd hwy, ni ellir rhagdybio na fydd unrhyw newid a all effeithio ar y trefniadau perthnasol cyn dechrau neu yn ystod y flwyddyn ysgol nac mewn blynyddoedd i ddod.

Parents are kindly asked to contact the school, if possible, between 8.45a.m. – 9.15a.m. and 2.30p.m. - 3.00p.m. The office is not manned between 12.45pm – 1.15pm.

Rhannwyd yr Ysgol i 3 adran Derbyn Blwyddyn1,2,3 Blwyddyn 4,5 a 6

The school is divided into the following three departments: Reception Year 1/2/ 3/ Years 4 5 and 6

Staff yr Ysgol School Staff

Pennaeth *Head Teacher*

Miss Marion Evans

Athrawon *Teachers*

Mrs. Kathryn Elias
Mrs. Lisa John
Mr. Matthew Broad
Mrs. Eirian Davies

Gweinyddesau Dosbarth
Teaching Assistants

Mrs.Catrin Evans
Mrs.Sian Gwynfor
Miss Enid Jones
Mrs.Eleri Phillips
Mrs.Llinos Rees

Ysgrifenyddes *Secretary*

Mrs.Lauren Jenkins

Gofalwr *Caretaker*

Mr. Mark Jones

Goruwchwylywyr Cinio
Mid-day Supervisor

Mrs.Christine Tebbitt

Staff y Gegin *Kitchen Staff*

Mrs. Jenny Davies
Mrs.Joyce Hunt

Glanheuwyr *Cleaners*

Mrs.Sue Potter
Mrs.Evelyn Hardwick

Dreigiau Bach y Bannau

Arweinydd y Cylch

Mrs.Meriel Gardner
Miss Enid Jones
Mrs. Eleri Phillips
Mrs. Jeanette Williams

Derbyn a Mynediad

Caniateir mynediad i unrhyw blentyn y mae ei rieni am iddo ddod yma, cyhyd ag y bo'r amodau yn yr ysgol yn caniatáu hynny, e.e. lle ac adnoddau digonol. Pennir rhif mynediad i'r ysgol hon ac os bydd rhifau mewn unrhyw flwyddyn ysgol yn debygol o fynd yn uwch na'r rhif hwn, rhaid dilyn y camau a nodwyd yn nogfen Powys "Schools Admission and Appeals – General Guidance and Information". Yn unol â pholisi Powys o fis Medi 2017 ymlaen, gall plentyn ddechrau yn yr ysgol ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd cyn iddo gyrraedd pum mlwydd oed. Dylai rhieni sydd yn ystyried anfon eu plentyn i'r ysgol gysylltu â'r Pennaeth yn y lle cyntaf, fel y gellir trefnu ymweliad.

Rydym yn cynnig darpariaeth cyn ysgol ar y safle i blant 2 i 4 oed, ac yn cynnal sesiwn 'Ti a Fi' yn wythnosol i rieni a'u plant. Ceir manylion pellach am y cyfleoedd yma ar gyfer addysg cyn-ysgol yn swyddfa'r ysgol.

Estynnir gwahoddiad i rieni newydd i gyfarfod Croeso yn yr ysgol yn ystod tymor cyn dechrau. Gofynnir i rieni lenwi Ffurflen Mynediad pan fo'u plentyn ar fin dechrau yn yr ysgol. Ar yr un pryd, neu yn gynt os dymunent, rhoddir iddynt gopi o Lawlyfr yr Ysgol, ynghyd â Phecyn Croeso sy'n cynnwys gwybodaeth a dogfennaeth perthnasol.

Admissions

Admission is granted to all those children whose parents desire it, so long as the school is able to adequately provide for them, e.g. space and resources. An admissions number has been assigned to the school and if it should appear that the numbers in any school year is likely to exceed the maximum allowed, then the procedures laid out in the Powys document "Schools Admission and Appeals – General Guidance and Information" will be implemented. In accordance with the Powys policy on admissions from September 2017 onwards, pupils may start school at the beginning of the academic year before their fifth birthday. Parents considering sending their child to the school should contact the Headteacher in the first instance in order to arrange a visit. Our pre school setting (Welsh-medium playgroup) provides pre-school education at the school for children aged 2 – 4 along with a Parent and Toddler group on site weekly. Please ask at the school office if you would like more information about these opportunities for pre-school education. Prospective parents are invited to a Welcome meeting during the term prior to starting. Parents are asked to fill an Admissions Form when their child is due to start school. At this time, or sooner if they wish, they will be given a copy of the School Prospectus, together with a Welcome Pack which includes relevant information.



laith yr Ysgol

Rydym yn ysgol benodedig Gymraeg a Chymraeg yw prif gyfrwng yr ysgol. Rhaid i holl athrawon yr ysgol fod yn rhugl yn y Gymraeg ac yn medru ysgrifennu'r iaith yn gywir. Ceisir penodi cynorthwyr yr ysgol sydd yn gwbl hyderus yn yr iaith pan fo hynny'n bosibl. Sicrheir bod holl ohebiaeth yr ysgol yn cael ei gyflwyno'n ddwy-ieithog.

Gan ein bod yn ymwybodol nad yw nifer helaeth o'n rhieni yn medru'r iaith Gymraeg, trefnir cyfarfodydd ac ati i fod yn ddwyieithog a chroesawir cyfraniadau yn y ddwy iaith.

Mae mwyafrif y disgyblion yn dod o gartrefi di-Gymraeg. Yn y blynyddoedd cynnar anelir at roi sylfaen gref yn y Gymraeg i'r disgyblion drwy feithrin sgiliau llafar cadarn. Ni chyflwynir y Saesneg fel pwnc o fewn y CC1. Cyflwynir Saesneg ym mlwyddyn 3 gan gydnabod bod plant eisoes yn medru'r iaith ac wedi dysgu'r sgiliau sylfaenol o ddarllen ac ysgrifennu yn barod yn y Gymraeg. Anogir y plant i siarad Cymraeg gyda'i gilydd a chynhelir gweithgareddau'r ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg lle bynnag y mae hynny'n bosibl. Er mwyn i blant sylweddoli bod y Gymraeg yn iaith fyw a ddefnyddir yn y gymuned tu allan, trefnir i bobl ddod i mewn i'r ysgol i siarad â'r plant yn yr iaith. Awn â'r disgyblion ar ymweliadau (gan gynnwys rhai preswyl), i berfformiadau ac i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd er mwyn ehangu eu profiadau o'r iaith.

The Language of our School

We are a designated Welsh medium school and Welsh is the main language used daily within the school. All teachers appointed to the school must speak the language fluently and be able to write the language accurately. Every effort is made to appoint assistants to the school who are confident users of Welsh wherever possible. We ensure that all correspondence is presented bilingually. Parents are given the option of receiving school reports in Welsh or in English. Since we are aware that a large proportion of our parents are unable to speak Welsh, meetings are arranged to be bilingual and parents are welcomed to contribute in either language. Most of our pupils come from non-welsh speaking homes. In the early years we aim to give a firm foundation in the Welsh language by establishing secure oral skills. English is introduced in year 3 bearing in mind that children already speak the language and have already developed the skills of reading and writing in Welsh. Children are encouraged to speak Welsh to each other and school activities are held in Welsh wherever possible. In order that pupils realise that Welsh is a living language that is used in the community outside the school, we arrange for people from the community to come to speak to the children in the language. We take the children on trips (including residential visits), to performances and to the Urdd National Eisteddfod in order to broaden their experience of the language.

Yr Urdd

Anogir disgyblion i ymaelodi â'r Urdd. Ceir cyfle i gymryd rhan yng nghystadleuthau chwaraeon, mabolgampau ac eisteddfodau. Ym mhen uchaf yr Ysgol mae cyfle i'r aelodau fynychu cyrsiau preswyl ym Mae Caerdydd, Pentre Ifan, Glanllyn a Llangrannog,

Adran yr Urdd

Oherwydd ein bod yn credu'n gryf y dylai'r plant werthfawrogi bod y Gymraeg yn iaith fyw sydd yn gallu bod yn berthnasol i fywyd dydd i ddydd, i gymdeithasu a chael hwyl yn ogystal â bod yn gyfrwng dysgu ac addysgu, byddwn yn cynnal Adran o'r Urdd yn yr ysgol ar hyd y flwyddyn.

Yr Urdd

Membership of the Urdd is encouraged. Members are given opportunities to compete in various events such as tournaments, sports and Eisteddfodau.

Further up the school, members are given the opportunity to visit and stay at the Cardiff Bay, Pentre Ifan, Glanllyn and Llangrannog Urdd centres.



Adran yr Urdd

Since we strongly believe that our pupils should appreciate that Welsh is a living language which is relevant to day-to-day living, to socialising and having fun as well as being a medium for teaching and learning, the Adran is held throughout the year.

Ymweliadau allanol

Anogir athrawon i drefnu ymweliadau allanol sydd yn cydfynd â gwaith y dosbarth. Gofynnir am gyfraniadau ariannol ar gyfer costau yn unol â pholisi'r ysgol a gynhwysir yn y llawlyfr. Trefnir ymweliadau lleol a phellach. Ar hyn o bryd, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn cael y cyfle i fynd ar ymweliad preswyl yng Ngogledd Cymru. Mae Blwyddyn 5 yn cael ymweliad preswyl â chanolfan yr Urdd yn Llangrannog a Blwyddyn 4 yn ymweld â Chanolfan yr Urdd yng Nghaerdydd. Mae Cyfeillion yr ysgol yn cyfrannu'n sylweddol i leihau cost yr ymweliadau preswyl.

External visits

Teachers are encouraged to arrange outside visits which complement the work of the class. Voluntary contributions towards costs are requested in line with the school's policy. Local and more distant visits are arranged. At present, year 6, 5 and 4 pupils are given the opportunity to go on residential visits during the year, including visiting the Urdd Centre, Llangrannog, The Urdd Centre in Cardiff and The Urdd centre in Glanllyn. The Friends of the school financially contribute generously to reduce the trip costs.



Dyddiadau Tymhorau a Gwyliau
2025 - 2026

Term times and Holidays
2025 - 2026

Tymor yr Hydref / Autumn Term 2025	
Tymor yn dechrau / <i>Start of term</i>	01/09/2025
Hanner tymor yn dechrau / <i>Half term starts</i>	27/10/2025
Hanner tymor yn gorffen / <i>Half term ends</i>	31/10/2025
Diwedd tymor / <i>End of term</i>	19/12/2025
<i>Non Pupil Days</i>	01/09/2025 24/10/2025
Tymor y Gwanwyn / Spring Term 2026	
Tymor yn dechrau / <i>Start of term</i>	05/01/2026
Hanner tymor yn dechrau / <i>Half term starts</i>	16/02/2026
Hanner tymor yn gorffen / <i>Half term ends</i>	20/02/2026
Diwedd tymor / <i>End of term</i>	27/03/2026
<i>Non Pupil Days</i>	05/01/2026 06/03/2026
Tymor yr Haf / Summer Term 2026	
Tymor yn dechrau / <i>Start of term</i>	13/04/2026
Hanner tymor yn dechrau / <i>Half term starts</i>	25/05/2026
Hanner tymor yn gorffen / <i>Half term ends</i>	29/05/2026
Diwedd tymor / <i>End of term</i>	17/07/2026
<i>Non Pupil Days</i>	17/07/2026

Rheolau'r Ysgol

Credwn ei bod yn bwysig i gynnal rhai rheolau er mwyn sicrhau safonau uchel mewn ymddygiad, ymddangosiad a diogelwch. Dymunwn dynnu eich sylw at y canlynol:

School Rules

We believe that it is important to have some rules to maintain high standards of appearance and behaviour and to ensure safety.

Prydlondeb

Dylai disgyblion gyrraedd yr Ysgol rhwng 9.00 a 9.10 o'r gloch. Mae'r Ysgol yn gyfrifol am blant o 9.00yb i 3.30yh.. Cyfrifoldeb rhieni yw sicrhau bod eu plant yn cyrraedd yr Ysgol yn y bore ac yn dychwelyd adref ar ddiwedd y dydd yn ddiogel. Dylid rhoi gwybod i'r Ysgol bob tro y mae unrhyw newid yn nhrefniadau dychwelyd adref arferol y plant.

Os yw'r plant yn mynd i gyrraedd yr ysgol yn hwyr gwerthfawrogwn wybodaeth ymlaen llaw fel eu bod yn cael y marc cywir ar y cofrestr a chinio yn cael ei archebu iddynt. Mae cyrraedd yr ysgol yn brydlon yn bwysig iawn i sicrhau nad yw'r plentyn yn colli gwaith na gwybodaeth am drefniadau'r dydd.

Punctuality

Pupils should arrive in school between 9.00a.m. and 9.10a.m. The school is responsible for pupils between 8.50a.m. and 3.30p.m. It is parents' responsibility to ensure that their children arrive safely at the school in the morning and return home safely at the end of the school day. The school should be notified of any changes to the usual travelling home arrangements in the form of a letter.

Presenoldeb / Salwch

Mae presenoldeb da yn hybu datblygiad addysgol plant. Os yw eich plentyn yn absennol gofynnwn i chi anfon nodyn / e-bostio / ffonio i egluro pam ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb. Rhaid i'r Ysgol gadw cofnod o'r rhesymau am bob absenoldeb. Pwysleisiwn y dylai eich plentyn fynychu'r ysgol mor aml â phosib ac y dylech ystyried yn ofalus cyn ei dynnu allan o'r ysgol ar gyfer gwyliau yn ystod tymor ysgol. Gall colli amser ysgol gael effaith ar gynnydd plentyn. Os yw'n anochel bod angen cymeryd gwyliau yn ystod y tymor, dylech ofyn am ffurflen wyliau a'i dychwelyd i'r ysgol cyn mynd i fwrdd.

Attendance / Illness

Good attendance promotes children's educational development.

Each absence should be explained either in writing/e-mail or by word/telephone on the first day of absence. By law we have to record the reason for all absences. If a holiday is required during term time, a holiday form will need to be completed and returned to school before the holiday commences.

Apwyntiadau

Os bydd gan blentyn apwyntiad gyda'r deintydd neu doctor, gofynnir i'r rhieni roi gwybodaeth i'r athrawes ddosbarth o flaen llaw (disgwylir i'r plentyn ddod nôl ar ôl yr apwyntiad).

Appointments

If a child has an appointment with the dentist or doctor, parents are asked to inform the class teacher in advance (it is expected that the child will return after the appointment).

Meddyginiaeth

Gweler ein Polisi Meddyginiaeth. Cyn y gellir rhoi unrhyw feddyginiaeth, rhaid cwblhau'r gwaith papur angenrheidiol. Cysylltwch a'r swyddfa er mwyn cwblhau'r gwaith papur.

I'r rhai sy'n dioddef o asthma gall eich plentyn ddod a pwmp i'r ysgol gyda chaniatâd ysgrifenedig.

Medication

Please see our administering medicine policy. Before any medication can be administered, the correct documentation needs to be completed. Please contact the school office for the completion of the Medication Form.

Asthma sufferers are able to bring inhalers to school with written permission.

Bwyd iachus

Anogir y plant i fwyta ffrwythau yn yr amser chwarae .Mae siop ffrwyth ar gael yn Ni chaniatier losin, siocled na bwyd yn cynnwys cnau. Anogir disgyblion i yfed dŵr yn ystod y dydd.

Healthy Food

Pupils are encouraged to eat fruit at playtimes. No sweets, chocolates or food containing nuts are permitted or fizzy drinks. Pupils are encouraged to drink water during the day.

Gwisg ac Eiddo

Disgwylir i ddisgyblion ddod i'r Ysgol mewn gwisg daclus. Dylid marcio dillad ac eiddo plant yn glir gyda'u henwau. Dylid dod a dillad i newid ar gyfer gwersi addysg gorfforol. Ni ddylid dod a theganau na gemau electroneg i'r Ysgol.

Clothes and Belongings

Pupils should come into school dressed tidily. Children's clothes and belongings should be clearly marked with their names. Pupils should bring appropriate clothing to school for their P.E. lessons. No toys or electronic games should be brought into school.

Tlysau

Ni ddylid gwisgo tlysau ar wahan i oriawr a "studs". Rhaid tynnu y rhain ar gyfer gwersi ymarfer corff.

Jewellery

Pupils should not wear jewellery with the exception of a wrist watch and ear studs. These must be removed during P.E. activities.

Disgyblaeth o fewn ein hysgol

Mae'r staff a'r plant wedi cytuno, gyda sêl bendith y Llywodraethwyr i gadw at y rheolau hyn....

- Ymfalchiwn ein bod yn defnyddio'r iaith Gymraeg o'n gwirfodd o fewn ein hysgol.
- Ymfalchiwn ein bod yn gwisgo ein gwisg Ysgol gan ein bod yn edrych yn un teulu mawr.
- Teimlwn bwysigrwydd hunan balchder tuag at ein hysgol, hynny yw golwg esthetaid yr adeilad y tu mewn a thu allan. Ceisiwn wneud hynny trwy gadw'r Ysgol yn daclus ac yn lan. Ymfalchiwn yn yr amgylchfyd, yr arddangosfeydd a thaclusrwydd.
- Dangoswn barch trwy geisio bod yn gwrtais i'n cyd-ddisgyblion, staff yr Ysgol ac ymwelwyr.

Nod yr Ysgol yw annog disgyblion i fod yn gyfrifol ac i barchu eraill. Byddwn yn gwobrwyo ymddygiad da ac yn dilyn Cod Ymddygiad yr Ysgol.

Behaviour within our school

The staff and children, with the blessing of the Governors have agreed to keep to these rules....

- *We are proud to use the Welsh language voluntarily within our school.*
- *We are proud to wear our school uniform because we look like one big family.*
- *We feel the importance of pride in our school, in its aesthetic appearance both inside and out. We try to support this by being neat and tidy. We take pride in the environment, in displays and in tidiness.*
- *We display respect by being courteous to our fellow pupils, to school staff and visitors.*
- *We work hard showing respect towards our work and remembering to complete our homework regularly.*

The school aims to encourage pupils to behave responsibly and to respect others. We reward good conduct and follow the school's Behaviour code.

Trefn Gwyno

Mae'r Awdurdod Addysg Lleol wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae cyrff llywodraethu'r ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm Ysgol a materion eraill cysylltiedig. Gellir gofyn am gopi o'r drefn hon yn yr Ysgol. Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Pennaeth. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, a bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwynir cwyn yn ffurfiol mewn achosion eithriadol.

Dylid cysylltu â'r Ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gŵyn yn y lle cyntaf gyda'r Pennaeth.

Complaints Procedure

The Local Education Authority has established a procedure to consider complaints concerning the way schools' Governing Bodies and the Education Authorities act in relation to the schools curriculum and other related matters. A copy of this procedure is available at the school. It is emphasised, however, that many complaints can be dealt with quickly and effectively by informal consideration based on discussions with the Headteacher. This is the first reasonable step, and the Governing Body would expect that this step would have been completed before presenting the complaint formally in exceptional cases.

An appointment can be made to discuss any complaint with the Headteacher by contacting the school.

Patrwm gwaith

Ceisir sicrhau bod yr addysg a ddarperir yn hybu datblygiad moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol pob disgybl a bod natur y cwricwlwm cyflawn yn wahaniaethol, eang a chytbwys. I ymateb â'r gofynion hyn bydd trefniadaeth y dosbarth yn hyblyg.

Bydd gweithgareddau dosbarth yn cynnwys gwaith dosbarth cyfan, gwaith grŵp, gwaith pâr a gwaith unigol.

Trefnir y gwaith yn ôl gallu/ aeddfedrwydd/ anghenion y disgyblion. Gall rhieni drefnu i weld copiau o bolisiau a chynlluniau gwaith drwy gysyllu â'r Pennaeth.

Byddwn yn trafod nodau gwersi gyda disgyblion ac yn eu gwneud yn ymwybodol o feini prawf llwyddiant er mwyn eu galluogi i werthuso eu gwaith eu hunain ac eraill.

Work Pattern

The aim is to try and ensure that the education provided enhances the spiritual, moral, cultural, mental and physical development of each pupil and that the nature of the complete curriculum is varied, expansive and balanced. In order to fulfil these needs the class organisation will be flexible. Activities will include whole class work, group work, working in pairs and individual work.

Work is arranged according to the ability/ maturity/ needs of the pupils. Parents may arrange to see copies of the school's policies and schemes of work through contacting the headteacher.

We discuss lesson aims with pupils and success criteria so that they can assess their own work and that of others.

Amcanion Cyffredinol

Ein nod yw datblygu disgyblion i fod yn hollol ddwyieithog ac i ddefnyddio iaith i ehangu eu dealltwriaeth o'r byd ac i gyfoethogi ansawdd eu bywydau fel eu bod yn aelodau o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

General Aims

Our aim is to develop the ability of pupils to be confidently bilingual and to use language to extend their understanding of the world and enrich their lives in order that they can be full members of the bilingual society of which they live.

Derbyn, Blwyddyn 1 Blwyddyn 2

Sicrhau, trwy ddarpariaeth a threfniadau feithrin bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn o maes law. Cyflwynir Saesneg yn ystod yr hanner tymor olaf yn Mlwyddyn 2.

Reception/Year 1 / Year 2

To ensure , through sensitively structured provision and organisation, that each child receives a firm foundation in Welsh in order to enable him/her in due course to attain the aim of bilingualism. English is introduced in the latter half of the Summer Term in Year 2.

Blwyddyn 3,4,5 a 6

Cadarnhau a datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol, er mwyn ei fod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd ac yn hyderus yn y ddwy iaith pan fo'n trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd.

Years 3,4,5 and 6

To consolidate and develop each child's Welsh and English capabilities in all aspects, both active and receptive, so as to ensure that he/she can speak, read and write fluently and confidently in both languages on transferring to the secondary school.

Cynllun Trochi

Beth yw Trochi?

'Trochi', neu addysg drochi iaith, yw'r cyfle i ddysgu iaith ychwanegol drwy ymdrochi'n llwyr yn yr iaith gyda gwersi dwys neu aml. Yn y Ganolfan Iaith, ein nod yw galluogi disgyblion sydd am ymuno ag ysgol neu ffrwd Gymraeg yn hwyr i ddatblygu rhuglder yn y Gymraeg mewn cyfnod byr.

Sut y mae'n gweithio?

Mae dysgwyr yn mynychu'r Ganolfan Iaith pedwar diwrnod yr wythnos am gyfnod o 12 wythnos. Os oes angen, fe fydd y Cyngor yn darparu cludiant. Mae grwpiau yn y Ganolfan Iaith yn llai ac maent wedi'u cefnogi gan athrawes a chymhorthydd arbenigol. Mae staff yn cyfathrebu'n rheolaidd gyda'r fam-ysgol a rhieni/gofalwyr. Rydym yn monitro cynnydd y disgyblion ac yn darparu cefnogaeth iddynt nol yn yr ysgol yn dilyn eu cyfnod yn y Ganolfan Iaith.

Sut brofiad yw hi?

Mae staff y Ganolfan Iaith yn dilyn rhaglen iaith sydd wedi'i strwythuro'n ofalus, gyda ffocws ar yr elfen lafar a phatrymau iaith. Mae'r addysgu'n hwylus ac yn apelgar, ac yn cynnwys profiadau ar draws y meysydd dysgu. Mae'r amgylchedd yn gynhwysol gyda phwyslais ar fagu hyder disgyblion i ddefnyddio'r iaith.

Immersion Programme

What is 'Trochi'?

'Trochi', or immersion, means the opportunity to learn an extra language by being immersed in that language with intensive or frequent lessons. In Canolfan Iaith (Language Centre), our aim is to enable pupils who wish to join a Welsh school or stream at a later stage to develop a high level of fluency in Welsh in a short period of time.

How does it work?

Learners attend the Canolfan Iaith four days a week for a period of 12 weeks. Transport is provided if required. Groups of pupils in Canolfan Iaith are small and pupils are supported by a specialist teacher and teaching assistant. Staff communicate regularly with home schools and parents. Pupils' progress is tracked and support is provided back in the home schools following their time in Canolfan Iaith.

What's it like?

Canolfan Iaith staff follow a carefully structured programme of language learning, with a focus on oral practice and language patterns. The learning is engaging and lively and includes experiences across the areas of learning. The environment is nurturing and inclusive, with an emphasis on building confidence to use the language.

Cwricwlwm ein Hysgol

Er bod cwricwlwm yr ysgol yn cael ei ddiffinio gan ofynion Llywodraeth Cymru, mae wedi'i greu mewn cydweithrediad ag aelodau o gymuned ein hysgol ac mae'n bwrpasol i Ysgol y Bannau. Rhoddir sylw cyfartal i ddatblygiad gwybodaeth, sgiliau, cysyniadau ac agweddau a rhoddir pwyslais sylweddol ar brofiadau uniongyrchol. Mae ein Cwricwlwm yn cael ei arwain gan lais y disgybl a sydd wedi ei adeiladu ar y pedwar diben

Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelod gwerthfawr o gymdeithas.

Y chwe maes dysgu yw:
Celfyddydau Mynegiannol
Iechyd a LLes
Dyniaethau
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
Mathemateg a Rhifedd
Gwyddoniaeth a Thechnoleg

School Curriculum

Although the school curriculum is defined by the requirements of the Welsh Government, it has been created in collaboration with members of our school community and is tailored specifically to Ysgol y Bannau. Equal attention is given to the development of knowledge, skills, concepts, and attitudes, with significant emphasis placed on direct experiences. Our Curriculum is guided by the voice of the pupil and is built upon the four purposes.

*Ambitious , Capable learners
Healthy, confident individuals
Ethical, informed citizens
Enterprising, creative contributors*

These are supported by the Areas of Learning and Experience.

*Expressive Arts
Health and Well-being
Humanities
Languages, Literacy and Communication
Mathematics and Numeracy
